

**About LLAWN**

LLAWN is a free arts festival that celebrates and explores Llandudno through art, artefact, sound, comedy, performance and participation. Across the weekend you can explore this work in unusual spaces and surprising places including baptist chapels; empty shops; shipping containers and our very own Victorian Bathing Machines.

LLAWN is MOSTYN's annual Free Arts Weekender, returning September 15th-17th 2017. Enjoy free arts interventions sited across the town - with performance, music, comedy, visual art, film, games, dance and surprises aplenty. LLAWN brings together international artists, local groups, schools and pink balloons to take over, explore and enjoy the town.

**Gair am LLAWN**

Mae LLAWN yn ŵyl gelfyddydol ddi-dâl sy'n dathlu ac yn archwilio Llandudno drwy gelfyddyd, arteffactau, sain, comedi, perfformiadau a chyfranogiad. Drwy gydol y penwythnos gallwch archwilio'r gweithiau hyn mewn gofodau anarferol a lleoedd annisgwyl, gan gynnwys capeli Bedyddwyr; siopau gweigion; cynwysyddion llongau a'n Peiriannau Ymdrochi Fictorianaidd arbennig ni.

Penwythnos Celfyddydau rhad ac am ddim MOSTYN yw LLAWN, ac mae'n dychwelyd ar 15-17 Medi 2017. Cyfle ichi fwynhau digwyddiadau celfyddydol ym mhob cwr o'r dref - gyda pherfformiadau, cerddoriaeth, comedi, celfyddyd weledol, ffilm, gêmau, dawnsio a digonedd o bethau i'ch rhyfeddu. Yn LLAWN bydd cyfuniad o artistiaid rhyngwladol, grwpiau lleol, ysgolion a balŵns pinc yn llenwi'r lle ac yn rhoi cyfle i chi archwilio a mwynhau'r dref.

Llawn.org @llawndudno llawn llawndudno



# Celebrate

LLAWN celebrates Llandudno's past, present and future through the art and activities that we commission and host throughout the town. This year we have Lookout, a performance piece bought together by international artist Andy Field and pupils at Ysgol Morfa Rhianedd which invites you to consider the town's future. We seek out Llandudno's hidden legends too - the people who have sprinkled their own magic onto the town - and you can submit names to us of people who should feature and be celebrated.

# Dathlu

Mae LLAWN yn dathlu gorffennol, presennol a dyfodol Llandudno drwy'r celfyddydau a'r gweithgareddau yr ydym yn eu comisiynu a'u cynnal ym mhob rhan o'r dref. Eleni mae gennym Lookout, perfformiad a luniwyd ar y cyd gan Andy Field, yr artist rhyngwladol, a disgyblion Ysgol Morfa Rhianedd, ac mae'r perfformiad yn eich gwahodd i ystyried dyfodol y dref. Rydym hefyd yn chwilio am gymeriadau chwedlonol Llandudno - y bobl sydd wedi gadael eu hud arbennig ar y dref - a gallwch anfon enwau unigolion a ddylai gael eu hamlygu a'u dathlu.







# Participate

All too often people think 'art' is only about standing in a room looking at things. Not so! At LLAWN we have creature-creating-workshops, board games, a chance try your hand at light art, circus skills, hula-hooping, knitting, virtual reality, mask-making, dancing and parading on the prom. There's art to make, art to play and art to step inside.

# Cymryd Rhan

Yn llawer rhy aml mae pobl yn meddwl mai sefyll mewn ystafell yn edrych ar bethau yw 'celfyddyd'. Nid yw hynny'n wir! Yn LLAWN mae gennym weithdai-creu-creaduriaid, gemau bwrdd, a chyfle i roi cynnig ar greu celf golau, sgiliau syrcas, cylchoedd hwla, gwau, rhith-wirionedd, llunio mygydau, dawnsio a gorymdeithio ar y prom. Bydd cyfle i lunio celf, i chwarae celf ac i gamu i mewn i gelf.







# *LLAWN05*

**PENWYTHNOS CELFYDDYDAU LLANDUDNO #5**
**LLANDUDNO ARTS WEEKEND**

MEDI / SEPTEMBER 15–17

**#LLAWN @LLAWNDUDNO LLAWN.ORG**



# Promenade

Llandudno's promenade is massive, luckily, as during LLAWN weekend we'll be filling it with an array of free walkabout street theatre, dance, music and film for you to seek out and stumble upon. Our Victorian Bathing Machines will be scattered across its length, a different artist transforming each one to explore and enjoy. This year, for the first time, LLAWN will come to a celebratory close on Sunday with a giant joyous Parade along the Prom.

# Promenâd

Yn lwcus ddigon mae promenâd Llandudno yn un enfawr, oherwydd yn ystod penwythnos LLAWN byddwn yn ei lenwi ag amrywiaeth ddi-dâl o berfformiadau theatr stryd crwydrol, dawnsfeydd, cerddoriaeth a ffilmiau, rhywbeth i chi ddod ar eu traws a chwilio amdanynt. Bydd ein Peiriannau Ymdrochi o Oes Fictoria wedi eu gosod hwnt ac yma hyd y prom, a bydd artist gwahanol yn trawsnewid pob un fel y gallwch eu harchwilio a'u mwynhau. Eleni, am y tro cyntaf, bydd LLAWN yn arwain at ddiweddglo mawreddog o ddathlu ar ddydd Sul gyda Gorymdaith Enfawr orfoleddus ar hyd y Prom.









# Performance

Enjoy one-on-one theatre, spoken word, comedy, dance, music, puppetry and more. LLAWN gathers together performers from Wales, the UK and beyond that make work to enthrall from a minute to an hour at a time. There's pop-up performances to catch you as you wander, or you can schedule your day to know where you'd like to be, and when.

# Perfformiad

Cyfle i fwynhau theatr un-i-un, y 'gair llafar', comedi, dawns, cerddoriaeth, pypedwaith a mwy. Mae LLAWN yn casglu perfformwyr ynghyd o Gymru, y DU a thu hwnt – er mwyn eich swyno am funud neu am awr ar y tro. Ceir perfformiadau dros dro i hoelio eich sylw wrth ichi grwydro, neu gallwch drefnu eich diwrnod ymlaen llaw er mwyn gwybod lle'r hoffech chi fod, a phryd.







# Lost Spaces

At every edition of LLAWN we encourage you to explore the town to reveal lost spaces and places. We invite you into empty shops, dark caves and through locked doors. You might follow art trails, participate in a photomarathon, hunt for dioramas, hop on an operatic bus tour of theatres long gone or listen to the beating heart of a chapel.

# Mannau Coll

Bob blwyddyn yn LLAWN rydym yn eich annog i archwilio'r dref er mwyn datgelu gofodau a mannau coll. Rydym yn eich gwahodd i fynd i mewn i siopau gweigion, i ogofâu tywyll a thrwy ddrysau a fu, hyd yma, dan glo. Efallai yr hoffech ddilyn trywyddau celfyddydol, cystadlu mewn ffotomarathon, chwilota am ddioramâu, neidio ar fws i fwynhau taith operatig o amgylch hen theatrau diflanedig neu wrando ar guriad calon hen gapel.



